**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 28 Gorffennaf 2022 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe ) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Steve Hunt | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| William Bramble | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Steven Jones | Cyfarwyddwr Datblygu (Cyngor Sir Benfro) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Helen Morgan | Rheolwr Datblygu Economaidd (Cyngor Sir Gar) |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**
Y Cynghorydd(wyr)
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
Jon Haswell (Swyddog S151 (Cyngor Sir Benfro)), Chris Moore (Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr)) a/ac Wendy Walters (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr))

---

**13 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 14 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022 fel cofnod cywir.

## 15 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Dim.

## 16 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Dim.

## 17 Diweddariad am Brosiect Morol Doc Penfro.

Cyflwynodd Steve Edwards (Cyfarwyddwr Masnachol, Porth Aberdaugleddau) adroddiad 'er gwybodaeth' i hysbysu’r Cyd-bwyllgor o’r cynnydd a wnaed ar Raglen Ardal Forol Doc Penfro Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdDA) a'i statws.

Manylodd ar y gweithgareddau a gwblhawyd, y gweithgareddau a gynlluniwyd, risgiau a phroblemau.

## 18 Monitro Portffolio Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Phil Ryder (Rheolwr Swyddfa Portffolio Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf am Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA) ar gyfer y Portffolio BDdBA a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

Darparodd yn benodol ddiweddariadau am gynnydd ynghylch y canlynol:

- Atodiad A: Dangosfwrdd Monitro Chwarterol.
    - Statws Coch Melyn Gwyrdd (CMG) y Rhaglen/Prosiect.
    - Amserlen Cyflawni'r Portffolio.
    - Cofrestr Risg Portffolio.
    - Cofnod Materion.
    - Asesiad Effaith COVID.
    - Gwireddu buddion.
    - Rheolaeth Ariannol.
    - Rheoli newid.
    - Adolygiadau Sicrwydd ac Archwiliad.
    - Cyfathrebu a Chynnwys.
    - Crynodeb o'r Gwaith Caffael sydd ar y Gweill.
- Atodiad B: Adroddiad Monitro Chwarterol BDdBA (sy'n cynnwys 2 lefel â sawl cydran).

- Portffolio –
    - Cyfathrebu a Marchnata
- Rhaglenni/Prosiect -
    - Cerdyn cadw sgôr gyda chrynodeb o'r statws.
    - Cyflawniadau'r chwarter blaenorol a gweithgareddau cynlluniedig y chwarter presennol.

- Atodiad C: Cofrestr Risgiau'r Portffolio - Risgiau Coch a Newydd
    - Mae cofrestr risgiau portffolio BDdBA yn nodi ac yn monitro risgiau portffolio allweddol ynghylch cyflwyno'r Fargen Ddinesig a chyflawni'i nodau ac amcanion.

- Atodiad D: Cofnod o Faterion y Portffolio - Materion Coch a Newydd
    - Mae cofrestr o faterion portffolio BDdBA yn nodi ac yn monitro materion portffolio allweddol ynghylch cyflwyno'r Fargen Ddinesig a chyflawni'i nodau ac amcanion. Mae Statws CMG wedi'i ychwanegu at y Cofnod Materion bellach i ddangos lefel difrifoldeb.

- Atodiad E : Gwireddu buddion
    - Mae cofrestr buddion BDdBA yn nodi'r buddion portffolio blynyddol ar gyfer buddsoddiad, gwerth ychwanegol gros a swyddi a fydd yn cael eu cyflwyno hyd at 2032/33. Rydym yn aros am wybodaeth am Gefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel, CALL Canolfan Dechnoleg y Bae ar hyn o bryd.

- Atodiad F: Sicrwydd Portffolio
    - Mae BDdBA wedi llunio portffolio a 3 adolygiad prosiect/rhaglen Gateway dros y 12 mis diwethaf. Mae graddfeydd Asesiad Hyder Cyflawni yr Adolygiad Gateway ar gyfer pob rhaglen/prosiect i'w gweld ochr yn ochr â'r dyddiad a drefnwyd ar gyfer yr adolygiad nesaf.

- Atodiad G: Crynodeb o'r Effaith Adeiladu
    - Diben yr asesiad risgiau/problemau a'r asesiad effaith ar y cyd yw amlygu a meintioli'r risgiau/problemau penodol sy'n cael eu profi ar hyn o bryd drwy'r holl ddiwylliant adeiladu. Mae Bwrdd Rhaglen a Chyd-bwyllgor BDdBA wedi gofyn i'r holl raglenni a phrosiectau asesu eu statws cyfredol a'u monitro parhaus, mewn perthynas â'r effaith bosib y bydd yr heriau adeiladu hyn yn ei chael ar gyflwyno'r portffolio a'i raglenni a phrosiectau cyfansoddol yn llwyddiannus.

**Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio BDdBA a'i raglenni/prosiectau cyfansoddol.

**19 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.**

Cyflwynodd Jason Blewitt (Archwilio Cymru) grynodeb o ganfyddiadau'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon - Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y bydd y Cyd-bwyllgor yn derbyn Archwiliad Archwilio Cymru o'r Adroddiad Datganiad o Gyfrifon 2021/2022 ar gyfer Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

**20 Datganiadau Ariannol 2021/22.**

Cyflwynodd Richard Arnold (Rheolwr Cyllid, BDdBA) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad o Gyfrifon Blynyddol Rhaglen BDdBA ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022.

**Penderfynwyd** y bydd y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon BDdBA ar gyfer 2021/22 ar ôl iddo gael ei archwilio.

**21 Llythyr Sylwadau.**

Cyflwynodd Richard Arnold (Rheolwr Cyllid, BDdBA) adroddiad a oedd yn ceisio cydnabyddiaeth ffurfiol o Lythyr Sylwadau Swyddog Adran 151 BDdBA i Archwilio Cymru.

**Penderfynwyd** cydnabod y Llythyr Sylwadau a anfonwyd gan Swyddog Adran 151 BDdBA a Chadeirydd y Cyd-bwyllgor i Archwilio Cymru.

**22 Monitro Ariannol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2022/23 - Sefylla Alldro Dros Dro Chwarter14.**

Rhoddodd Richard Arnold (Rheolwr Cyllid, BDdBA) yr wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol Dinas-Ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y bydd y Cyd-bwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r adroddiad sy’n rhoi’r diweddaraf am fonitro ariannol.

**23 Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Phil Ryder (Rheolwr Swyddfa Rheoli Portffolio Dinas-Ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar gyfer drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a atodwyd yn Atodiad A.

**Penderfynwyd** y bydd y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol a atodwyd yn Atodiad A.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.32 am

**Cadeirydd**